funded by

LLAIS OLDFORD

Oldford Voice

Mehefin/Gorffennaf 2007

Y 'Get Going Gang'...

Wyt ti rhwng 4 - 15 oed? Buaset ti'n hoffi trïo celf a chrefft, chwaraeon a gemau, gwisg ffansi, cariocî, helfa drysor, tripiau ac ymweliadau a gweithdai proffesiynol i enwi ond rhai pethau?

Bydd y 'Get Going Gang' yn rhedeg eto eleni yng Nghaban y Sgowtiaid dydd Llun—Gwener rhwng dydd Mawrth, 24ain Gorffennaf a dydd Gwener 24ain Awst rhwng 10 yb a 3 yp. Mae'r sesiynau'n agored i blant rhwng 4 a 15 oed, ac yn costio £2.50 yr un. Bydd cost ychwanegol ar gyfer unrhyw dripiau, gweithdai ac ymweliadau â'r sinema, ac mae'n bosibl y bydd yr amseroedd cychwyn a gorffen yn wahanol — bydd yr wybodaeth yma ar gael ymlaen llaw.

Mae hyd at 50 lle gan y 'Get Going Gang' bob dydd, ac mae'n gweithio ar y sail cyntaf i'r felin…. Mae'n rhaid i riant neu warcheidwad ddod gyda'r plentyn ar y diwrnod cyntaf i lenwi'r ffurflenni cofrestru, oherwydd heb y ffurflenni hyn, ni fydd

yn bosibl derbyn unrhyw blentyn.
Mae'r 'Get Going Gang' wedi derbyn cyfanswm grantiau o £8,806.00 hyd yn hyn eleni i'w galluogi i redeg y cynllun chwarae dros yr haf—swm anhygoel.

Derbyniwyd grant o £1,466.00 oddi wrth y Gronfa Loteri a'r rhaglen 'Dyma dy Gyfle'. Bydd y grant yn ariannu tri ymweliad i blant dros 10 oed, ac yn rhoi cyfle iddynt fynd ar dripiau mwy cyffrous, a threulio amser i ffwrdd o'r plant iau.

Derbyniwyd grant arall o £2,900.00 trwy raglen grantiau 'Arian i Bawb Cymru'. Bydd y grant hwn yn helpu'r cynllun chwarae i redeg yn llyfn, trwy gyfrannu at gostau cyffredinol.

Derbyniwyd cyfanswm o £4,340.00 trwy raglen Plant mewn Angen y BBC i dalu am bedwar cynorthwyydd chwarae—newyddion gwych i grŵp sy'n haeddu'r gefnogaeth.

Dywedodd Liz Gannon, Cadeirydd ac Arweinydd Chwarae/Gwirfoddolwr y 'Get Going Gang' "rydym wrth ein bodd i dderbyn y grantiau hyn er mwyn gallu rhedeg y cynllun eto eleni. Byddem hefyd yn hoffi cymryd y cyfle hwn i ddiolch i Gyngor y Dref am eu rhodd caredig o £100.00. Bydd yr holl arian a nodir uchod yn cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd da, a phobl o'r gymuned leol fydd ar eu hennill ."

Am fwy o wybodaeth ynghylch y manylion uchod, cysylltwch â:
Liz ar 01938 556648.

Yn y rhifyn hwn

Y 'Get Going Gang'	*1*
Cynllun Cyfnewid i bobl ifanc	*2*
Oldford Ar-lein	*3*
Erthygl ar Ddiogelwwch	*4*
Cymunedau'n Gyntaf	*5*
Diogelu anifeiliaid anwes...	*6*

Os hoffech dderbyn copi o'r cylchlythyr hwn mewn print bras neu yn Gymraeg, cysylltwch â Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf ar 556648

If you would like a large print or Welsh language version of this newsletter, please contact the Communities First Office on 556648

Cynllun Cyfnewid i Bobl Ifanc…

Ym mis Awst eleni, bydd 15 o bobl ifanc yn teithio o'r Tallwng i Ogledd Iwerddon i gymryd rhan mewn cynllun cyfnewid i bobl ifanc. Bydd cyfres o weithdai cyn y cyfnewid, fydd yn rhoi cyfle i'r bobl ifanc ystyried pethau megis thema'r cynllun cyfnewid, sut y byddant yn teithio i'r Iwerddon, a lle fyddan nhw'n aros.

Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi llwyddo yn y cyfweliad i fod yn rhan o'r prosiect cynllun cyfnewid i bobl ifanc!!!

Sioe Gymunedol Oldford

Ar ddydd Sadwrn 21ain Gorffennaf, cynhelir Sioe Gymunedol gyntaf Oldford ym Maes Parcio Stryd Aberriw. Bydd yn ddiwrnod gwych gyda llwyth o weithgareddau gwahanol ar y gweill.

Rydym yn gobeithio cael tîm cŵn 'K9 capers', cyngerdd gan y plant, ceir clasurol, arddangosfa ar atal tân, arddangosfa gyda llif gadwyn, stondinau bwyd, cystadlaethau, sioe gŵn, uned chwarae symudol 'jolly jungle' a nifer o bethau eraill.

Rydym yn chwilio am wirfoddowlyr fyddai'n fodlon rhoi cwpl o oriau bob wythnos dros y misoedd nesaf i baratoi ar gyfer y digwyddiad gwych hwn. Hefyd bydd angen llu o wirfoddolwyr ar y diwrnod!
Os hoffech wirfoddoli, neu am wybod mwy, ffoniwch ni ar 556648.



Cyhoeddiadau…

Pen-blwydd hapus i Danielle Davies fydd yn 14 ar 6ed Mehefin!!! Hefyd i

Robbie Davies fydd yn 9 ar 7fed Mehefin!!!

Llongyfarchiadau i Dean ar basio ei brawf gyrru!

Help!!!

Oes gennych chi hen luniau o Ystâd Oldford gallwn eu defnyddio ar gyfer prosiect cyffrous? (Gallwn eu dychwelyd pe dymunir!) Os felly, a fyddech gystal â siarad gyda Carole yn swyddfa Clwyd Alyn neu drwy ffonio 55 62 84!

A fyddai gennych ddiddordeb mewn mynd ar dripiau megis bowlio deg yn yr Amwythig neu sglefrio yn Telford dros yr haf? Byddai angen i oedolyn cyfrifol ddod gyda phob plentyn.
Os oes gennych ddiddordeb, ffoniwch Nick Davies ar 079 216 126 16.

Ar Werth

7 x Golau Grisial o Graig Himalaya

£10 yr un—ffoniwch 55 41 81

Y DIWEDDARAF AR GAE CHWARAE SCANSIS

Fel y gwelwch, mae'r contractwyr ar y safle i osod y cae.

Gwyliwch allan am fanylion y lansiad swyddogol, a gallwch ddod i ymuno yn y dathliadau!!!!

Silver Surfers' Day

FRIDAY 25TH MAY 2007

I wybod mwy, ffoniwch Mandy ar

01938 556648

Dydd Gwener 25ain Mai

9.30yb - 12.30yp

Tŷ Emerald, Ysgol Babanod Oldford

Bydd Diwrnod Porwyr Brith yn gyfle i bobl mewn oed ddarganfod mwy am y Rhyngrwyd ac ebost.

Byddwn yn rhedeg sesiwn blasu am ddim mewn awgyrcylch o hwyl a chymorth.

Beth am alw heibio yn ystod y bore, dod am baned o goffi, a chael cyfle i weld y byd ar-lein!

Dewch draw i weld yr hyn y gall y rhyngrwyd ei gynnig i chi!

Yn y llun, o'r chwith i'r de mae; Cyng Wynne Jones, Lembit Opik AS, Mandy Roberts, Cyng Ann Davies Maeres Y Trallwng, Liz Gannon, a'r Dr Buddug Owen a Glyn Jones o Gymdeithas Clwyd Alyn.

Lansio Oldford Ar-lein - gweler y llun uchod!

Erbyn hyn, mae trigolion Oldford yn gallu cael mynediad am ddim i'r rhyngrwyd a hyfforddiant technolegeol yn Oldford Ar-lein, yn sgil gweithio mewn partneriaeith a grant gan Gymunedau at ei Gilydd.

Bydd mynediad am ddim i'r rhyngrwyd ar gael gydag Oldford Ar-lein ar bum cyfrifiadur newydd yn ystafell gymunedol Clwyd Alyn, wyth gliniadur yn Nhŷ Emerald, a bydd cyrsiau sylfaenol ar gyfrifiaduron, y rhyngrwyd a ffotograffeg digidol ar gael.

Ariennir y prosiect diolch i arian oddi wrth Gymuedau at ei gilydd, cynllun Llywodraeth y Cynulliad i wella mynediad i dechnoleg newydd i bobl yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

Bu Hannah Guntrip, Cydlynydd Cymunedau'n Gyntaf Oldford yn cydweithio gyda Debbie Holmes, o raglen Cymuedau at ei gilydd, i lunio cynllun y prosiect. Dywedodd Hannah: "Ar hyn o bryd mae llawer o bobl yn Oldford heb mynediad i TG—trwy'r cynllun hwn, ein gobaith yw dod â buddion technoleg newydd iddynt a'u helpu i gynyddu eu sgiliau."

Yn ôl Debbie Holmes: "Wrth gynllunio, ein bwriad oedd ceisio diwallu anghenion y gymuned. Ein gobaith yw y bydd pobl yn cynyddu eu hyder a sgiliau gyda TG, ac yn gweld budd o'r cyfleoedd – boed yn siopa ar-lein, ebostio'r teulu, lawrlwytho ffotograffau neu gael gwell swydd."

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Mandy Roberts ar 01938 55 66 48.

Iechyd

Am wybodaeth a chyngor, cysylltwch â:

Meddygfa'r Trallwng
01938 55 31 18

Shropdoc
08450 20 21 31

Cymorth i Ferched
0808 2000 247 neu
www.womensaid.org.uk

Asiantaeth Iechyd Meddwl Powys
01597 82 55 91 or
www.powysmentalhealth.org.uk

Cynllunio Teuluol
01938 55 89 00
www.ruralwellbeing.org.uk

Mae CTO yn gobeithio tirlunio'r man chwarae yn y dyfodol agos. Ar ôl paratoi'r tir, bydd y tyweirch yn cael eu gosod. Ni fydd unrhyw un yn cael mynd ar y maes chwarae nes i'r tyweirch setlo, felly byddem yn ddiolchgar am eich cydweithrediad i sicrhau fod hyn yn digwydd. Gofynnwn i chi gadw eich plant, a chi'ch hunain oddi ar y maes chwarae yn ystod y cyfnod hwn. Bydd y maes chwarae yn edrych cymaint yn well, a bydd yn llawer mwy diogel. Helpwch ni felly i sicrhau fod y tyweirch yn setlo'n iawn ac yn tyfu'n dda.

Neges oddi wrth Gymdeithas Clwyd Alyn…

Mae gwaith adeiladu wedi cychwyn ar gam 4 o'r ystâd. A wnaiff trigolion gofio am y cerbydau trwm fydd yn defnyddio ffyrdd yr ystâd yn ystod y misoedd sydd i ddod. Diolch yn fawr!!!

Bydd CTO yn rhoi dwy fainc i'w gosod yn y safle bysiau ger y cartrefi gwarchodol. Byddant yno o fewn y pythefnos nesaf.



Erthygl ar gadw'n Ddiogel

Cadw'n ddiogel rhag twyll ar y rhyngrwyd

Twyll ar y rhyngrwyd yw un o'r meysydd o weithgarwch anghyfreithlon sy'n tyfu gyflymach yn y DU. Os ydych yn siopa ar-lein, dylech gymryd rhai camau syml i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol.

Gellir dadlau, ers nifer o flynyddoedd , fod y mesurau diogelwch llym oedd yn diogelu'r rhan fwyaf o fasnachu ar y rhyngrwyd, wedi gwneud y broses yn fwy diogel na siopa yn y stryd fawr. Ond dros y blynyddoedd diweddaraf, mae hacwyr clyfar wedi dyfeisio nifer o sgamiau ar y rhyngrwyd—gan ddarbwyllo pobl sy'n bancio ar-lein i roi manylion eu cyfrif er enghraifft, a chreu sgriniau amgryptio cardiau credyd ffug.

Felly, y dyddiau 'ma, mae angen cymryd camau ychwanegol i sicrhau fod eich gwybodaeth yn cael ei diogelu a'ch bod chi ddim yn dioddef o dwyll.

Dyma rai syniadau i wneud eich masnachu ar-lein yn fwy diogel:

- Gofalu fod eich porwr wedi cael ei osod ar y lefel ddiogelwch uchaf posibl
- Defnyddio fersiwn diweddar o borwr—mae nodweddion diogelwch gwell i'r rhain
- Chwilio am symbol o glo ar waelod y dudalen a chyfeiriad yn dechrau gyda 'https'. Os nad yw'r pethau hyn yno, peidiwch â rhoi manylion eich cerdyn credyd
- Os oes gennych bryderon, ffoniwch y cwmni i ofyn ynghylch ei system amgryptio
- Argraffu copi o'r dderbynneb electronig, a'i chadw'n ddiogel
- Gwirio cyfriflenni banc a chardiau credyd i sicrhau fod y manylion yn cyfateb
- Peidiwch byth â rhoi eich rhif PIN i neb, gan gynnwys pobl sy'n honni gweithio i'ch banc
- Cofiwch, ni fydd eich banc byth yn gofyn i chi ail-fwydo gwybodaeth am eich cyfrif a byddan nhw byth yn gofyn i chi anfon eich rhif PIN mewn ebost.

Mae Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf wedi bod yn brysur iawn dros y misoedd diwethaf! Ar ddydd Gwener, 11fed Mai lansiwyd Oldford Ar-lein—digwyddiad gwych! Llongyfarchiadau a diolch i bawb am wneud y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol!!!

Hefyd rydym wedi recriwtio swyddog gweinyddol newydd, Claire Allen, fydd yn cychwyn gyda ni ganol mis Mehefin.

Mae cwpl o ddigwyddiadau cyffrous ar y gweill, a gobeithiwn y byddwch am fod yn rhan ohonynt – digwyddiadau megis Sioe Gymunedol Oldford a chae chwarae Scansis.

Rydym hefyd yn gobeithio trefnu Diwrnod Tacluso arall, gan fod un llynedd yn gymaint o lwyddiant! Os hoffech weld hyn yn digwydd, neu os hoffech fod yn rhan o'i drefnu, ffoniwch ni ar 55 66 48!

Peth braf yw gweld y tîm yn dechrau ar y gwaith o adeiladu cae chwarae Scansis!!! Edrychwn ymlaen at weld pobl yn defnyddio'r cae fel adnodd cymunedol i dref Y Trallwng, a bonws yw ei gael yma ar ystâd Oldford!!!

Ysgol Babanod Oldford

Mae plant Blwyddyn 1 wedi bod yn rhan o brosiect mawr a chyffrous dan yr enw 'O hedyn i lifio' trwy Fenter Addysg y Coed. Mrs Picken oedd wedi dyfeisio'r prosiect, sydd wedi datblygu i gynnwys 7 o ysgolion lleol. Cynhaliwyd cyfres o weithdai i'r plant oedd yn cynnwys y canlynol…

- Hel mes fel rhan o ddigwyddiad cenedlaethol
- Hau mesen
- Ymweld â choedwig o goed derw
- Gwylio coeden yn cael ei chwympo
- Ymweld â melin lifio i weld coeden derw yn cael ei hestyllu
- Gwylio turniwr pren (preswyl) wrth ei waith.

Cynllun Bocsys Ffrwythau a Llysiau

Rydym yn gobeithio trefnu cynllun bocsys ffrwythau a llysiau ar Ystâd Oldford, ond mae angen eich help chi! Oes gennych chi ddiddordeb mewn cael ffrwythau a llysiau ffres am brisiau da, a hynny ar garreg eich drws? Rydym yn gweithio gydag Undeb Credyd Robert Owen i geisio cychwyn y cynllun cyffrous hwn. Cynhelir cyfarfod i gychwyn trafod y cynllun ddydd Llun 4ydd Mehefin am 10.30yb yn Ysgol Babanod Oldford. Os oes gennych ddiddordeb mewn sut bydd y cynllun yn gweithio a sut y gallwch elwa ohono, dewch draw i ddysgu mwy. Byddwn hefyd yn chwilio am o leiaf 4 o wirfoddolwyr fyddai'n fodlon rhoi rhyw awr bob wythnos i roi'r cynnyrch yn y bocsys ac ati…
Am fwy o fanylion neu i ddangos eich cefnogaeth , ffoniwch swyddfa Cymunedau'n Gyntaf Oldford ar 55 66 48.

Diddordeb mewn gwirfoddoli?

Pam na wnewch chi gysylltu â Biwro Gwirfoddolwyr Gogledd Maldwyn ar 55 44 84 i weld sut y gallwch gyfrannu!

Gwyliwch allan am newyddion a digwyddiadau sydd ar y gweill gyda Chlwb Datgelu Metel Oldford!

Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi myny-chu'r Cwrs Cymorth Cyntaf yn y Gweithle! Llwyddodd pawb i basio—gwychl!

Gallwch chi feddwl am unrhyw weithgareddau, prosiectau neu hyfforddiant fyddai o fudd i chi a thrigolion eraill yn Oldford? Os felly, ffoniwch swyddfa Cymunedau'n Gyntaf Oldford ar 556648.

Diogelu anifeiliaid anwes rhag chwain

Mae chwain yn broblem drwy gydol y flwyddyn, ond yn ystod y gwanwyn a'r haf maent yn bridio'n gyflymach, felly mae mwy o risg i'ch anifeiliaid anwes chi. Os oes gennych gi neu gath, mae'n bur debyg y bydd yn cael chwain rhywbryd yn ystod ei fywyd. Mae chwain yn bethau blin ac yn gallu bod yn boenus i'ch anifail a'ch teulu chi, ond maen nhw hefyd yn gallu achosi problemau mwy difrifol:

- Dermatitis Alergedd i Chwain - alergedd i boer neu ysgarthion chwain—mae angen milfeddyg i gadarnhau
- Trosgwlyddo llyngyr
- Colli gwaed ac anaemia mewn cŵn bach a chathod bach
- Trosglwyddo heintiau eraill trwy'r gwaed—yn anaml gall rhai effeithio ar fodau dynol

Ni fydd y rhan fwyaf o gynnyrch chwain gellir eu prynu yn yr arch-farchnad neu'r siop, yn torri cylch by-wyd y chwain. Byddant yn lladd y chwain sydd gan eich anifail ar y pryd, ond ddim yn cael effaith parhaol.

95% o broblem chwain yw amgylchfyd yr anifail sef wyau, larfae a phwpaod. Felly, pan fydd chwain newydd yn dat-blygu o'r camau hyn, byddant yn mynd syth i'ch anifail, ac mae'r cylch cyfan yn ailgychwyn eto!

Mae rhai triniaethau fydd yn torri'r cylch yma, ar gael oddi wrth eich mil-feddyg. Galwch fewn i gael sgwrs ynghylch pa driniaeth fyddai orau i'ch anifail chi. Bydd y rhan fwyaf o filfeddy-gon yn hapus i roi'r cyngor yma am ddim, felly byddwch ond yn talu am ba bynnag driniaeth rydych yn ei ddewis.

Mae'r rhan fwyaf yn golygu rhoi diferyn o hylif ar gefn gwâr yr anifail, fydd yn yn eu gwarchod am gyfnod o rwng 4—8 wythnos.



Dyddiadau Cau Llais Oldford…

Os oes gennych gyfraniad i'w gynnwys yn **Llais Oldford**, croeso i chi gysylltu â ni! Dyddiadau cau gweddill cylchlythrau 2007 yw;

Dydd Gwener 20fed Gorffennaf
Dydd Gwener 21ain Medi

Dydd Gwener 23ain Tachwedd

Cynhelir **Diwrnod Amgylchedd y Byd 2007**

ar 5ed Mehefin.

Beth gallwch ei wneud???

Cau'r tap wrth frwsio'ch dannedd?

Cerdded neu feicio yn lle gyrru?

Defnyddio bylbiau golau sy'n Arbed Ynni?

Hyd yn oed os ydych yn gwneud pethau sy'n ddibwys yn eich tyb chi, mae pob dim yn helpu!!!